



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Canllawiau ar Weithredu'r Polisi ar Ddarpariaeth Iechyd  
a Llesiant i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Rhagfyr 2018

## 1. Cyflwyniad

Ar 6 Ebrill 2018, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad 12 wythnos ar y Canllawiau drafft ar Weithredu'r Polisi ar Ddarpariaeth Iechyd a Llesiant i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches sy'n adeiladu ar ganllawiau cynharach 2009 ar faterion gofal iechyd ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru ac yn eu disodli.

Nod y canllawiau hyn yw mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon sy'n codi o ran y ddarpariaeth o wasanaethau sylfaenol ac eilaidd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn nodi cyngor amrywiol sydd wedi ei gynllunio i gynorthwyo ymarferwyr gofal iechyd yn eu rhyngweithiadau â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r cyngor yn ymwneud â sut y gallai newidiadau i arferion annog mwy o gyfranogiad mewn gwasanaethau iechyd ac enghreifftiau o sut y gellir cyfleu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Diben y canllawiau yw ei gwneud yn haws i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael gafael ar ofal iechyd a gwella eu canlyniadau iechyd, a thrwy wneud hynny, helpu i wella cymhwysedd diwylliannol yr ymarferwyr gofal iechyd sy'n gweithio gyda nhw.

Rhennir y canllawiau i'r adrannau canlynol:

1. Pam y mae angen y canllawiau hyn
2. Yr hyn yr ydym yn ei wybod am boblogaeth ffoaduriaid a cheiswyr lloches Cymru
3. Gweithredu, llywodraethu ac atebolrwydd
4. Darparu ar gyfer anghenion gofal iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches
5. Arferion Da
6. Rheoli Risg.

## 2. Ymgynghoriad

Parodd y cyfnod ymgynghori o 6 Ebrill 2018 hyd 29 Mehefin 2018. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb. Derbyniwyd rhai ymatebion hwyr hefyd i sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o ymatebion yn cael eu hystyried.

Roedd pum cwestiwn wedi eu nodi mewn dogfen a oedd ar gael ar-lein ac y gellid eu dychwelyd naill ai ar ffurf copi caled neu drwy e-bost. Dyma'r pum cwestiwn:

1. A ydych yn credu bod y canllawiau drafft yn cwmpasu'r prif faterion iechyd sy'n effeithio ar fywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
2. A oes materion iechyd eraill y dylid eu cynnwys? Os felly, pa rai a pham? Rhowch dystiolaeth.
3. A fydd y camau allweddol yn helpu i gefnogi gweithrediad y canllawiau? A ydynt yn cwmpasu'r materion cywir? Os nad ydynt, rhowch dystiolaeth os gwelwch yn dda.

4. A yw'r Llwybr Gofal yn atodiad 1 yn briodol wrth ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches? Os nad yw, rhowch dystiolaeth os gwelwch yn dda.
5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi eu trafod yn benodol, defnyddiwch y gwagle hwn i'w nodi:

Cawsom 28 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, gan sefydliadau ac unigolion; mae 26 ohonynt wedi eu rhestru isod. Dewisodd y ddau sy'n weddill aros yn ddienw.

<b>Ymatebwyr Ysgrifenedig</b>	
Mind Cymru	Yr Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
ASH Cymru	Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
Alltudion ar Waith	Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol
Seicolegwyr Cymhwysol mewn Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd	Oxfam Cymru
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Samaritans
Y Groes Goch Brydeinig	Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
Cyngor Sir Powys	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Cyngor Sir Caerfyrddin	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Iechyd y Cyhoedd / Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd Cymunedol
Iechyd y Cyhoedd / Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd Cymunedol	CHAPS Caerdydd
Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Hazel, Llandrindod	

### **3. Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori**

#### **3.1 A ydych yn credu bod y canllawiau drafft yn cwmpasu'r prif faterion iechyd sy'n effeithio ar fywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

Roedd yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn cytuno bod y canllawiau drafft yn cwmpasu'r prif faterion iechyd sy'n effeithio ar fywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gwnaed

y chydig o fân newidiadau i'r canllawiau sy'n cynnig eglurder yn bennaf lle bo hynny'n berthnasol.

### **3.2 A oes materion iechyd eraill y dylid eu cynnwys? Os oes, pa rai a pham? Rhwch dystiolaeth.**

Unwaith eto, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi i raddau helaeth bod y canllawiau yn gynhwysfawr; eu bod o ansawdd da a'u bod yn adlewyrchu'n llawn yr holl faterion iechyd. Roedd rhai pryderon ynghylch sut y bydd y canllawiau'n cael eu gweithredu ac ynghylch brechu ac imiwneiddio, sydd wedi eu cryfhau yn y canllawiau erbyn hyn. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch sut y mae safon yr asesiad gofal iechyd yn ymwneud â'r Llyfr Glas a'r Asesiad ION. Er inni wneud yr adran benodol hon yn fwy eglur, nid ydym yn dymuno ailadrodd na dyblygu asesiadau presennol ychwaith, ond dymunwn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd gan ystyried yr wybodaeth a'r deallusrwydd diweddaraf. Rydym wedi egluro bod y canllawiau'n ceisio pennu llinell sylfaen â data safonol trwy gynnal asesiad anghenion iechyd a thrwy hyrwyddo cydweithrediad y gellir ei ddefnyddio i fesur gweithgarwch wrth symud ymlaen, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae llawer o ymarferwyr o'r farn y dylai cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid agored i niwed sydd ag anghenion iechyd meddwl fod yn swyddogaeth gwasanaeth arbenigol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gael ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi cael profiad o artaith neu drais wedi'i drefnu, er enghraifft. Rydym wedi edrych ar ddichonoldeb sefydlu gwasanaeth trawma cenedlaethol a fydd yn cynnwys anghenion y ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ychwanegol am gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys a/neu mae adrannau presennol yn y canllawiau wedi'u cryfhau. Mae hyn yn cynnwys bod â mynediad at gyfieithydd; ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd roi hyfforddiant a chymorth ar waith fel bod darparwyr gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion cymhleth ffoaduriaid a cheiswyr lloches; adrannau ychwanegol ar Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches a Phlant sy'n Ffoaduriaid ac asesiadau oedran; ac egluro swyddogaeth y cynghorau iechyd cymunedol. Ar ben hynny, mae cyfeiriadau at ganllawiau arferion gorau cysylltiedig wedi eu hychwanegu at y canllawiau.

### **3.3. A fydd y camau allweddol yn helpu i gefnogi gweithrediad y canllawiau? A ydynt yn cwmpasu'r materion cywir? Os nad ydynt, rhwch dystiolaeth.**

Roedd yr ymatebion yn gefnogol ar y cyfan gyda nifer yn cadarnhau bod y camau allweddol yn briodol ac yn cynnwys amrywiaeth eang, a phe cânt eu gweithredu'n llawn, byddent yn darparu fframwaith cynhwysol, cynhwysfawr a chadarn i atgyfnerthu gweithrediad y canllawiau hyn. Fodd bynnag, nododd un ymateb na fyddai hyn yn sicrhau gweithrediad effeithiol yn unig, gan fod gweithredu'r camau yn

ddibynol ar drefniadau llywodraethu effeithiol mewn byrddau iechyd. Rydym wedi cryfhau'r cyfeiriad at broses y Cynllun Gweithredu Iechyd Grwpiau Agored i Niwed a Phobl Ddigartref i sicrhau bod byrddau iechyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am anghenion iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches bob chwe mis. Ar ben hynny, dylai'r camau allweddol sicrhau bod cydlynnydd arweiniol ar gyfer agenda'r ffoaduriaid a cheiswyr lloches ym mhob bwrdd iechyd i symleiddio'r gweithredu a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol wrth weithredu'r canllawiau gyda'r byrddau iechyd.

### **3.4. A yw'r Llwybr Gofal yn atodiad 1 yn briodol wrth ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches? Os nad yw, rhwch dystiolaeth.**

Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch priodoldeb y llwybr gofal sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn dweud bod y llwybr yn briodol, yn glir ac yn ddefnyddiol wrth ddisgrifio perthynas y gwasanaethau i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r asesiad cychwynnol yn allweddol i ddarparu gofal priodol, ac roedd rhywfaint o bryder y gall pobl beidio â chael gofal os na wneir hyn. Mae cyfathrebu rhwng y rhai sy'n ymgymryd ag asesiad cychwynnol wrth ddod i'r DU â chyswllt y bwrdd iechyd yn hollbwysig a dylai'r cam allweddol i enwebu cyswllt arweiniol yn y byrddau iechyd ddarparu pwynt cyswllt clir i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd.

Mae cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn weithgaredd partneriaeth, a gwnaed sylwadau i sicrhau bod y diagram llif yn cyfeirio at wasanaethau eraill a ddarperir i ffoaduriaid a cheiswyr lloches megis tai a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn bellach wedi ei adlewyrchu yn y llwybr. Mae nodyn ychwanegol wedi ei ychwanegu at y llwybr i sicrhau y dylai'r rhai â diagnosis o HIV gael eu cyfeirio i ofal eilaidd cyn gynted â phosibl ac y dylai ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd eisoes wedi cael presgripsiwn am therapi gwrth-retrofeirws nad oes ganddynt gyflenwad digonol o feddyginiaeth, gael mynediad at therapi gwrth-retrofeirws ar unwaith (o fewn 24 awr).

### **3.5 Sylwadau ychwanegol**

At ei gilydd, croesewir y canllawiau, ac maent yn cynnig adroddiad cynhwysfawr o'r sefyllfa, gan gysylltu â meysydd polisi presennol ac amlygu materion allweddol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â phlant. Caiff y darlun rhyngwladol ehangach ei egluro'n dda hefyd, gan ddyfynnu gwahanol fframweithiau cyfreithiol yn briodol fel y bôn yn berthnasol. Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai gweithredu'r canllawiau fod yn her. Mae llawer o ardaloedd ledled Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith hwn ers blynnyddoedd lawer ac felly ceir arferion a phartneriaethau sydd eisoes wedi eu sefydlu.

Nododd un ymatebydd fod rhai elfennau o'r canllawiau y mae angen eu hatgyfnerthu yn fwy; mae'r rhain wedi cael sylw lle bo hynny'n bosibl. Mae un sylw'n datgan,

mewn llawer o achosion, nad yw practisau yn y mannau mwyaf priodol i ddiwallu anghenion gofal iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gall apwyntiadau byr, rhwystrau iaith ac anawsterau posibl o ran deall y system achosi anawsterau i gleifion sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Er y dylid ymdrin â'r materion hyn drwy hyfforddiant staff, byddem yn disgwyl i fyrddau iechyd benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion lleol a sicrhau bod gwasanaethau'n briodol. Rydym, felly, wedi ychwanegu cam gweithredu allweddol newydd i fynd i'r afael â hyn.

#### **4. Sylwadau i gloi**

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol ar gyfer y Canllawiau drafft ar Weithredu'r Polisi. Mae'r materion a godwyd uchod wedi rhoi llawer o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru wella fersiwn derfynol y ddogfen.

Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr a gymerodd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniadau.

#### **5. Y Camau Nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r ddogfen ddrafft. Rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ddiwedd 2018. Caiff copi o'r crynodeb hwn o'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.